Deg Awgrym ar gyfer Ysgrifennu Clir

1. Rhaid i chi wybod pwy yw eich cynulleidfa, dychmygwch pwy yw eich darllenydd.
2. Cadwch ffeil dylunio o rai o'r taflenni/posteri gorau rydych wedi'u gweld i roi syniad i chi o sut gallai eich un chi edrych a darllen.
3. Byddwch yn fywiog. Defnyddiwch iaith, penawdau a sloganau byw i fywiogi eich ysgrifennu.
4. Peidiwch â rhoi gormod o fanylion. Mae'n bosibl bod llawer iawn yr hoffech ei ddweud ond nid yw darllenwyr yn barod i ddarllen gormod. Rhaid i chi gael eich neges drosodd yn gyflym.
5. Gofynnwch i rywun ddarllen eich drafft cyntaf i weld a allan nhw ddeall yr hyn rydych chi'n ceisio ei ddweud ac i nodi unrhyw beth sy'n anodd ei ddeall.
6. Peidiwch â defnyddio jargon nac acronymau. Mae'n bosibl eich bod chi'n gyfarwydd â nhw ond ni fydd pobl eraill o reidrwydd yn eu hadnabod.
7. Ceisiwch osgoi mân siarad. Mae pensil coch (i ddileu'r hyn nad oes ei angen) yn offeryn effeithlon ar gyfer ysgrifennu.
8. Defnyddiwch baragraffau byr, brawddegau byr a geiriau byr. Gall golygu syml drawsnewid yr hyn rydych wedi'i ysgrifennu.
9. Ysgrifennwch yn y person cyntaf, defnyddiwch "Ni" a "Fi" nid "y grŵp" ac "ef"
10. Cofiwch yr agwedd ddynol. Defnyddiwch enghreifftiau o fywyd go iawn pobl.

GwaithleuenctidCymru
pobl fel chi sy'n ei wneud fel y mae

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government